Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 12. Rhif 7.] GORPHENAF, 1912. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Derfel Gadarn.
Y Beibl; yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.
Y Gynhadledd Genedlaethol. D.J.D.
Y Parch. George Neighbour. (*Gyda Darlun*).
Cymanfa Gerddorol Ceredigion.
Arholiad yr Ysgol Sul, 1912
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Parch. E. D. P., Bury; J. R. E., Llanelly; Mrs. E., Esgerwenfawr; W. P. W., Bangor; Dr. J. D. J., Pentre; E. J., Rhydsais; J. R. T., Pontshan; J. G. J., Cwrtnewydd; D. D., Gorseinon; E. L., Bedlinog; J. T., Castelldraenog; G. J., Castell Pencarreg; D. T., Penarfawr; D. L. E., Kensington; P. P., Pencraig; Miss L., Dowlais; E. H., Dihewyd; D. J., Llewele; D. D., Gwarcefel Arms; J. D., Llwynyrheol; J. D., Trevine; T. J. J., Bangor; J. P., St. Clears; J. J., Blackwood; R. D. D., Mardy; J. T., Vrondolay; Miss J., Gelliaur; E. T., Llangeitho; J. Ll., Glancledlyn; W. Ll., Felindre-uchaf; J. J., Newington Causeway; H. W. H., Pontsarn; J. J., Neath; Dr. J., Llanybyther; Mrs. E., Tregaron; Miss J., Tregaron; D. S., Bwlchyffin; D. D., Gwardafolog; J. E. E., Stratford; W. S. J., Rhydychen; Mrs. D. J. T., Cribyn; Parch. E. C. J., Ciliau Aeron; D. J., Tydwgi; Parch. D. J. E., Chester; D. J. G., Ferndale; Mrs. J., Pentwyn; J. J. W., Trebanos; Mrs. J., Blaenllan; T. T., Rock Mill.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath gollèd i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad . . . . . .

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1912. [CYF. XII. RHIF 7.

NODION Y MIS.

Y MAE Dr. Crothers, yr hwn sydd yn awr ar ymweliad â'r wlad hon yn un o bregethwyr a llenorion goreu ein henwad yn America. Y mae wedi amlygu ei ddymuniad y carai dalu ymweliad â'r eglwysi Undodaidd yn Sir Aberteifi, ac y mae yn awyddus iawn i glywed canu Cymraeg y mae cymaint son am dano. Yn nghwrdd y gweinidogion gynhaliwyd yn ddiweddar yn Nhanycoed, penderfynwyd fod gwasanaeth undebol i gael ei gynal yn Nghapelygroes, ddydd Sul, Gorphenaf 28ain, am 2 o'r gloch, ac un arall yn Mhantdefaid am 6 yn yr hwyr. Gadawyd y trefniadau yn nwylaw gweinidogion y lle. Bydd Dr. Tudor Jones yn pregethu yn Gymraeg a Dr. Crothers yn Saesneg. Taer erfynir ar i'r cantorion, yn enwedig, bresenoli eu hunain ac i ddwyn gyda hwynt ragleni y ddwy gymanfa ddiweddaf. Trefnir hefyd gyfarfod yn Mrondeifi nos Lun os yn bosibl. Dylem oll fanteisio ar ymweliad Dr. Crothers ac i roddi croesaw teilwng iddo i'n plith.

Cyn y delo y llinellau hyn i ddwylaw ein darllenwyr bydd Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas gynhelir yn Mwlchyfadfa yn mhlith y pethau a fu. Y mae y Gymdeithas yn gwneud ychydig flwyddyn ar ol blwyddyn, ac os oes yna rywun heb ddanfon ei gyfran i gyllid y Gymdeithas, dymunem arno wneud yn ddioedi i'r Trysorydd, Mr. D. Martin Jones, Llandyssul, er ei gynwys yn y fantolen am eleni. Mwyaf ein cyfraniadau a'n haelioni ni tuag at y Gymdeithas, mwyaf y gwaith eill wneud.

Yn nghwrdd y gweinidogion gyfeiriwyd ato uchod daeth y cwestiwn ger bron oni ddylem wneud rhywbeth, pe ond cadw hawl yr enwad i gapelau Cwmmawrdu a Rhydyparc—y ddau yn Sir Gaerfyrddin. Cytunwyd ar ein bod yn cynal cyfarfodydd pregethu yn y blaenaf tua mis Awst, y rhai drefnir gan y Parch. D. Evans, Cribyn. Da genym ddeall fod y Parch. George Eyre Evans a Mr. Ben Davies, myfyriwr,

wedi talu ymweliad yn ddiweddar â Rhydyparc yn nghwmni plant y rhai arferent addoli yno. Cynhaliwyd yno gwrdd gweddi, a bu'r gwasanaeth yn ysprydoliaeth i'r ychydig ddaeth yn nghyd i'r hen fangre gysegredig. Oni ellir gwneud rhagor yn y cyfeiriad hwn? Y mae ein gweinidogion bob Sul yn rhwym yn eu heglwysi eu hunain, ond y mae yn bosibl gwneud ychydig yn y modd hwn ar hyd dyddiau yr wythnos.

Yn rhifyn Gorphenaf o'r "Geninen" y mae y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yn mhlith eraill yn ysgrifenu ei hunangofiant. Dechreua yn ddyddorol iawn, ac edrychwn yn mlaen yn awyddus am y rhanau eraill.

Y mae y Parch. Joseph Jones, Merthyr, wedi dwyn allan fywgraffiad o'r Parch. J. Bowen Jones, B.A., Aberhonddu, yn nghyd a hen emynau gasglwyd gan Mr. Jones yn ystod ei oes. I ni y mae yna fwy o ddyddordeb yn y bywyd na'r emynau. Ganwyd Mr. Jones yn Blaenborthyn, plwyf Llandyssul. Pan tua deuddeg oed aeth i'r Ysgol Ramadegol yn Llandyssul, yr hon a gedwid gan Mr. John Thomas, "yr hwn oedd wr dysgedig ac Undodwr selog." Dywedir ei fod tra yn yr ysgol hon wedi dod i adnabyddiaeth â'r "Parch. Thomas Thomas, M.A., yr hwn oedd yn weinidog yr eglwys yn Llwynrhydowen." Diau mai camsyniad ydyw hwn. Y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, feddylir, yr hwn oedd yn weinidog yn Mhantdefaid y pryd hwnw. Hefyd gwyddom fod y ddau yn gyfeillion hyd y diwedd. Perthynai i Mr. Jones ragoriaethau lawer fel ysgolor, fel gweinidog a chyfaill, a llanwodd le amlwg yn ei enwad am flynyddoedd lawer, a gwelir oddiwrth y gyfrol fechan hon faint a wnaeth efe. Y mae y gwaith wedi ei droi allan yn lân a destlus o Swyddfa'r "Tyst" yn Merthyr.

Llongyfarchwn yn galonog ddau o'n gweinidogion sydd yn llafurio yn Lloegr gyda'r Saeson, y naill ydyw y Parch. J. M. Lloyd Thomas, yr hwn sydd wedi bod yn weinidog ar un o eglwysi Nottingham, a'r hon ystyrid yn un bwysig iawn. Deallwn ei fod wedi cael dwy alwad bron yr un amser, un o Leeds, i ddilyn y Parch. Charles Hargrove, M.A., a'r llall o Birmingham, i ddilyn y Parch. Joseph Wood, yr hwn sydd wedi ymddiswyddo yn ddiweddar. Y mae Mr. Thomas wedi derbyn yr olaf. Y llall ydyw y Parch. James Jenkins, yr hwn sydd yn awr yn Padiham, ond wedi cael ei alw i le uwch yn mhob ystyr i Birkenhead. Y mae'r ddau frawd yn hanu o'r ysmotyn du yn Ngheredigion, ac y mae eu cydwladwyr yn llawenhau yn eu dyrchafiad yn ngwlad yr estron. Uwchach eto yr elont.

Parha erthyglau Hathren yn "Cymru" ar "Feirdd Dyfed" o fis i fis yn ddyddorol iawn. Tipyn yn fyr ydynt feallai yn ngolwg rhai o honom; ond fel y maent, dygant ni i gyffyrddiad â rhai o'r bobl lewion hyny a adawsant eu henw a'u hargraff yn arogl ar feddwl ein gwlad. Dyddorol i bob Undodwr yw erthygl y Parch. D. Evans, Cribyn, ar y Parch. W. James. Da genym weled enw y brawd anwyl yn cael ei godi i sylw cyhoedd mwy lluosog. Dyddorol hefyd yw'r erthyglau gawn ni o fis i fis, wedi eu codi "o lawysgrifau Iolo Morganwg yn Llanofer gan Cadrawd." Wn i a oes cymaint o ddarllen Cymraeg yn mhlith ein pobl ieuainc ag a ddylai fod? Y mae cymaint o ddefnyddiau gwrtaith meddyliol yn "Y Geninen" ac yn "Cymru" ag a allwn ddymuno. Credwn y dylai llyfrgell pob eglwys gynwys copi o'r ddau.

Y mae rhywun, dan gysgod ffugenw wrth gwrs, yn achwyn yn "Y Geninen" am Ebrill fod rhywrai yn ceisio "Presbytereiddio Anibyniaeth." Dywed mai "Rhyddid a Gweriniaeth yw delfrydau yr enwad Anibynol: Caethiwed a Bureaucratiaeth yw delfrydau y sawl a fynant ei Bresbytereiddio." Dyma bwnc teilwng iawn o'n ystyriaeth. Cofiwn glywed ambell waith na fedr dau Gymro byth gytuno yn hir i gario *un* gwaith yn y blaen. Ofnant golli eu hunaniaeth os parheir yr undeb a'r cydweithrediad yn rhy hir. Credwn ninau mewn anibyniaeth eglwysig; ond credwn hefyd mewn gwneuthur pob ymdrech i gydweithredu âg eglwysi eraill. Presbyteraidd oedd ein hen eglwysi, ond ni chlywsom erioed nad oeddynt yn Anibynol i bob pwrpas ymarferol. Nid yw athrawiaeth yn dal un cysylltiad o gwbl â'r mater mewn dadl. Gawn ni air gan arall ar y pwnc hwn?

Da fydd i'n darllenwyr ieuainc ddal sylw ar rai o gynghorion Carnegie yn ei anerchiad (fel *Lord Rector*) i fyfyrwyr ieuainc Prifysgol Aberdeen. Ebe fe: Y defnydd o wirodydd meddwol, yn fwy nag un arall yw y graig ar yr hon y dryllir gobeithion pobl ieuainc. Fy nghyngor i bobl ieuainc yw: Parhewch yn llwyrymwrthodwyr hyd nes byddoch wedi dod yn filiwnyddion. Dyna arferiad arall o eiddo myfyrwyr ieuainc, ac un fydd yn syndod i oesoedd y dyfodol—sef yr arferiad o dynu mwg i'w geneuau yn unig i'w chwythu allan drachefn. Mae'n arferiad ffol ac i mi yn awgrymu diffyg synwyr da, o leiaf dengys ddiffyg chwaeth. Mae'r gwr ieuanc sydd yn yfed mwg yn wirfoddol yn *handicapio* ei hunan—yn gosod rhwystr gwirfoddol arno ei hunan yn ngyrfa bywyd.—*Mehefin 6, 1912.*

DERFEL GADARN

oedd ac yw nawddsant eglwys Llandderfel yn Meirionydd. Dywedir fod Sant Derfel yn blodeuo tua diwedd y bumed a dechreu'r chwched ganrif. Mab oedd i Hywel ab Emyr Llydaw, ac yr oedd yn un o fonachod Bangor Illtyd, ac yn ddiweddarach efe a aeth gyda Chadfan ei gefnder i Fangor Ynys Enlli. Dywed traddodiad ei fod yn Farchog (Knight) ac iddo fod yn ymladd yn erbyn y Sacsoniaid. Yn y rhan olaf o'i oes rhoddodd ei hunan i fyny i fywyd crefyddol yn y man lle saif eglwys Llandderfel heddyw—eglwys wrth bob tebyg a sefydlwyd ganddo ef ei hun.

Yn yr hen amser yr oedd yn Llandderfel eilun neu ddelw yn dwyn yr enw Derfel Gadarn, i'r hwn y talai'r brodorion barch mawr, gan ei anrhydeddu â phererindodau ac aberthau. Yr oedd gan ddelwau o'r fath hyn fath o beirianwaith oddi fewn ac o'r golwg, a barai i'r llygaid rolio ac agor a chau, ac i ranau o'r corff symud, yr hyn oedd yn naturiol yn peri syndod mawr i bobl anwybodus, fel y gellid yn rhwydd eu twyllo. Arferai'r bobl gyrchu wrth y miloedd i roddi gwarogaeth i'r ddelw. Credid os gellid enill nawdd y sant fod ganddo allu i ddwyn enaid y pererin ar ol marw allan o uffern.

Wedi dechreu'r Diwygiad mawr cododd teimlad cryf yn mhlith dosparth neillduol yn erbyn yr holl ofergoelion hyn; ac yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed fe ddywedir fod cyflwr moesol y monachdai wedi myned yn warthus o isel, fel y penderfynwyd eu dinystrio, a chyfoethogi'r brenin â'r yspail, a phenodwyd y Dr. Ellis Prys o Blas Iolyn,* "cnaf bryntaf ei oes" meddai hanes, i gario'r gwaith yn mlaen yn Ngogledd Cymru. Y mae llythyr o eiddo Dr. Prys at y Lord Thomas Cromwell ar glawr hyd heddyw yn ymwneud â'r mater. Fel hyn y dywed un awdwr—"Ceir yn yr eglwys ysgrin ragorol, ac uwchben hon yr oedd gynt ddelw o'r nawddsant Derfel, yn gerfiedig mewn coed, ond hi a symudwyd i Lundain yn 1538 ac a ddefnyddiwyd yn gynud tân yn llosgiad cyhoeddus mynach a wadai uwchafiaeth y brenin.

Fe gofia'r darllenydd i'r Brenin Harri ymwadu â'r Pab a gwneuthur ei hunan yn fath o bab yn ei le, ac yn ben gweledig eglwys Crist yn Mhrydain Fawr. Bu Harri yn babydd selog un amser, a darfu iddo ysgrifenu traethawd mewn amddiffyniad,† am yr hyn y cafodd ei anrhydeddu â'r teitl *Fidei Defensor*—Amddiffynydd y Ffydd—dyna ystyr yr F.D. ar ein arian bathol.

Y "mynach" crybwylledig oedd un John Forest, yr hwn a gondemniwyd i gael ei losgi i farwolaeth yn Maesygofaint *(Smithfield)* yn Llundain, Mai 30, 1538. Pan y dygwyd ef i'r dienyddle yr oedd yno lwyfan mawr uchel wedi ei ragbarotoi, ac arni eisteddai prif bendefig-

---

* Gelwir ef yn "Commisarie generall of the dyosese of Saynte Assaph," &c.

† O leiaf fe gafodd y credit am hyny, er y myn rhai mai Syr Thomas More ddarfu ei ysgrifenu.

ion y deyrnas, yn nghyda "most honourable council" ei fawrhydi y Brenin Harri. Eglurodd Hugh Latimer,* esgob Worcester, ei gyfeiliornadau iddo, "gan eu gwrthbrofi yn eglur ac yn amlwg drwy Ysgrythyrau Duw; ond y cyfryw oedd cyndynrwydd Forest fel na wnai na gwrando na llefaru." Dyna dystiolaeth gelyn wrth gwrs.

Ychydig cyn y dienyddiad dygwyd y ddelw fawr grybwyllwyd am dani i'r lle, ac yr oedd gan y Cymry broffwydoliaeth y gosodai'r ddelw Fforest gyfan ar dân, yr hon broffwydoliaeth a gyflawnwyd yn awr, gan iddo osod y mynach Fforest ar dân a'i losgi'n ulw. Ar y pren dioddef lle y bu farw gosodwyd mewn llythyrenau y llinellau hyn:

David Darvell Gatheren
As saith the Welshmen
  Fetched outlaw out of Hell
Now is he come with spere and shilde
In harness to burn in Smithfielde
  For in Wales he may not dwell.

  And Forest the Friar
  That obstinate lyar
That wilfully shall be dead
  In his contumacey
  The Gospel he doth deny
The Kyng to be supreme head.

Gadawyd ar ol yn Llandderfel ddarlun cerfiedig o garw coch, er cof am ddelw y sant, a dywedir ei fod yn rhan o'r ddelw hono. Dangosir hefyd ffon, a osodir allan fel yn eiddo y nawddsant, a cheffyl pren, a elwir yn geffyl Sant Derfel.

Cyn symud y ddelw i Lundain dywedir i berson a phlwyfolion Llandderfel gynyg deugain punt am gael ei chadw—prawf lled dda o'r proffit oedd yn deilliaw oddiwrth offrymau'r pererinion.

Fe ddywed Miss Agnes Strickland yn ei bywgraffiad o'r Frenines Catharine o Arragon i'r erledigaeth a wnaeth Harri ar y Mynach Forest, cyn-gyffesydd Catharine, beri poen anesgrifiadwy iddi. Yr unig awdurdod gwreiddiol ar glawr heddyw a geir yn "Church History" Pollino, ac oddi yno y dyfynir y geiriau a ganlyn:—

"Ond y penaf peth i gwyno o'i blegid oedd y creulondeb barbaraidd a ddangoswyd tuag at yr hen dad parchus John Forest, yr hwn a fu unwaith yn gyffesydd i'r frenines, a'r hwn am y rheswm hyny oedd un o'r rhai cyntaf o'i chyfeillion a fwriwyd i garchar. Fe'i taflwyd i gaethiwed caled, ac am ddwy flynedd gorfu i'r hen wr dreulio ei ddyddiau yn mhlith lladron ac eraill o gymeriad gwarthus, a dioddef y poenau arteithiol mwyaf creulawn," ac ar ol hyny gael ei losgi'n fyw.

---

* Yn nheyrnasiad Mari, Hydref 16, 1555, fe losgwyd Hugh Latimer a Nicholas Ridley i farwolaeth. Fe gofir am eiriau Latimer—"Bydd ddewr, frawd Ridley, ni a gyneuwn ganwyll heddyw, yr hon trwy ras Duw nis diffoddir moni byth mwy."

Teilwng iawn dybiaf fi yw gwneud coffa am bobl dda fel John Forest a Derfel Gadarn. Yr oedd Forest yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau, yn ffyddlon i'r goleuni oedd gydag ef. A wnawn ni gystal? Yr oedd Derfel Gadarn hefyd yn ffyddlon. Nid bai Derfel fod cymaint o ofergoelion wedi ymgysylltu â'i enw mewn oesoedd diweddarach. Oherwydd ardderchogrwydd ei gymeriad y cymerodd hyny le—arwydd o barch ac edmygedd o'i aml rinweddau.

T.C.U.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

GAN Y PARCH. JOSEPH WOOD.

XII.

BETH SYDD YN AROS AR OL TYNU ALLAN Y CHWEDLONOL A'R GWYRTHIOL?

YN y cyntaf o'r darlithiau hyn, sylwais fod yn ein Beibl ni lawer o nodweddau a geir hefyd yn Meiblau ereill y byd. Nid ynddo ef yn unig y ceir gorchymynion moesol; nid yw drychfeddyliau mawr crefydd—Duw, cydwybod, dyledswydd, aberth, gweddi, a bywyd dyfodol—yn gyfyngedig i'w dudalenau. Nid yn y Beibl yn unig y ceir hanesion am wyrthiau a chwedleuon ereill. Y mae yn Meiblau y Bwddhiaid a'r Brahminiaid chwedleuon am feirw yn cael eu hadfer i fywyd, am ddeillion yn cael eu golwg, am ymgnawdoliadau a chenedliadau gwyrthiol, am ymddangosiadau angylion, am weledigaethau a lleisiau, am bysgod ag arian yn eu genau, am seirff ac asynod yn siarad, am fara o'r nef a dwfr o'r creigiau. Y mae ein gwybodaeth eangach am genhedloedd, crefyddau, a llenyddiaethau y byd yn gwneud yn amlwg i ni fod chwedleuon o'r fath hyn yn dod i fodolaeth yn naturiol mewn cyflyrau neillduol o wareiddiad. Yr oedd y meddwl dynol, pan nad oedd eto yn gwybod dim am wyddor, a phan nad oedd wedi ei hyfforddi i ymresymu yn iawn nac i sylwi yn gywir, yn wastad yn chwilio am y rhyfeddol, a chyfrifai bob digwyddiad anarferol fel un goruwch-naturiol.

Nid cynyrch twyll yw hyn i gyd. O ddiffyg gwybodaeth well, beth allai fod yn fwy naturiol na'u bod yn ystyried y daran fel lleisiau digllawn y duwiau, neu eu bod yn meddwl yr achosid diffyg ar yr haul gan ymgais rhyw ddraig enfawr i'w lyncu, neu fod swn trychfilyn mewn coedwaith, a glywid yn unig yn nhawelwch y nos, yn arwydd o farwolaeth agoshaol. Ond fel y mae gwybodaeth yn eangu,

gwelir y gellir rhoi i'r pethau hyn eglurhad naturiol; ac felly y mae cylch y rhyfeddol a'r gwyrthiol yn raddol yn cael ei gyfyngu. Y mae gwybodaeth well yn gwneud yn amlwg i ni fod i bethau, a ystyrid unwaith yn rhyfeddol a gwyrthiol, achosion syml a naturiol; a dygir yr argyhoeddiad adref atom, felly, nad yw gwyrthiau yn digwydd.

Beth fydd yn aros o'r Beibl ar ol i'r chwedlonol a'r gwyrthiol gael eu tynu allan o hono? Dim ond ychydig: dyna ateb cyntaf llawer o ddynion i'r gofyniad hwn. Ymddengys y chwedl a'r wyrth iddynt mor bwysig, fel (yn eu tyb hwy) y lleiheir, nid yn unig faintioli y Beibl trwy eu gadael allan, ond hefyd ei werth. Yn y gwrthwyneb, hyd yn oed pe tynid allan y gwyrthiol o'r Beibl yn llwyr, ni wnai hyny ond ychydig wahaniaeth yn ei faintioli, ac ni wnai un gwahaniaeth o gwbl yn ngwerth ei addysg foesol ac ysprydol. Erys y deg gorchymyn, gan nad ai credu ynte anghredu a wneir eu bod wedi eu hysgrifenu gan fys Duw ar ddwy lech. Pery lladrata a lladd yn ddrygau, er y dichon nad yw'r hanes am daranau Sinai i ni ond chwedlau; gwyddom fod Duw o hyd yn dywedyd, "Na wna odineb," er y dichon fod yr hanes am "y mynydd yn llosgi gan dân" i ni yn anghredadwy. Y mae Duw o hyd yn lywodraethwr cyfiawn, er na alwodd Elias am dân o'r nef i ddifa ei aberth; ac ni leiheir dim ar brydferthwch y gwynfydau am na yrodd Iesu y genfaint foch i'r mor. Ni allwn bellach gredu fod clefydau wedi eu gwella gan gadachau oeddynt wedi cyffwrdd a chorff Paul; ond ni wna hyn un gwahaniaeth yn ein barn am fawredd Paul, nac yn ngwerth y gyfres o lythyrau ysgrifenwyd ganddo.

Nid ymddengys y gwyrthiau i mi mor bwysig ag y myn y rhai a gredant ynddynt eu bod. Dywedir fod y ffydd Gristionogol yn sylfaenedig ar ac yn cael ei chadarnhau gan wyrthiau. Os nad yw Cristionogaeth yn gredadwy ar wahan i'r gwyrthiau, pwdr yw'r sylfaen ar yr hon y gorphwys. Ni fedr gwyrth brofi gwirionedd moesol ac ysprydol. Nid dyna'r farn gyffredin; ond gwireddir y gosodiad gan un engraifft syml. Meddylier y gallwn, trwy chwifio'm llaw, newid y Beibl sydd o'm blaen i fod yn fara: ni wnai hyny yr hyn ddywedaf yn fwy gwir nac yn fwy rhesymol. Ni wnai hyny brofi fy mod yn ddysgawdwr wedi'm hanfon oddiwrth Dduw, neu fod fy athrawiaeth yn wirionedd. Profai fy mod yn gwybod cryn lawer am draws-newidiad un sylwedd i sylwedd arall, ond ni wnai mewn un modd brofi fy mod yn awdurdod ar bynciau o ffydd ac ymddygiad. Oddieithr yr argyhoedder y rheswm ac yr eniller y galon ac y bywhaer y gydwybod gan y gwirionedd ei hun, ni fedr un gwyrth ei gymeradwyo i ni fel Bara y Bywyd.

Dywed diwinyddion y collir y cwbl os y collir y gwyrthiau; dywed anffyddwyr nad yw gwyrthiau bellach yn gredadwy, ac felly nad yw Cristionogaeth yn wir. Gwadaf y ddau osodiad hyn. Gesyd y duwinydd ormod o bwys ar gadw y gwyrthiau, a'r anffyddwr ar eu dinystrio. Y mae yr hyn sydd oreu mewn Cristionogaeth, yr hyn sydd yn apelio at y gydwybod, yr hyn a fedd ddylanwad derchafol

ar y galon, yr hyn a amlyga ras a gwirionedd y Tad nefol i ddynion, yr hyn a gyffyrdda a theimladau cyfrinol yr yspryd dynol, yn hollol anibynol ar wyrthiau. Yr hyn a wna ddyn yn Gristion ydyw, nid cred yn y gwyrthiau, ond bod yn bur o galon, newynu a sychedu am gyfiawnder, bod yn addfwyn a thrugarog, caru fel y carodd Crist, ymddiried yn ac ufuddhau i'r Tad nefol yn yspryd Crist, meithrin y meddwl oedd yn Nghrist. Pan y rhoddwn i fyny y gwyrthiau, ni chollwn ddim sydd o werth yn addysg Iesu, ddim sydd brydferth yn ei gymeriad, ddim yn ei groes sydd a thuedd i'n darbwyllo i'w ddilyn. Gwrthun a ffol yw dyweyd wrthyf fod disgyblaeth i Grist yn amhosibl oddieithr y credaf yn y gwyrthiau a briodolir iddo. Po amlycaf y gwelaf fod dylanwad Iesu Grist ar ddynion i'w briodoli, nid i'w arddangosiadau o allu dewinol, ond i'w gymeriad di-gyffelyb, i'w hunan-aberth, i'w amgyffrediad o bwys pechod, i'w gymdeithas â'i Dad, i'w gydymdeimlad di-derfyn a di-feth, cynydda fy mharch iddo, fy edmygedd o hono, a'm serch tuag ato.

Ni ddywedaf fod gwyrthiau yn amhosibl. Beth sydd bosibl neu amhosibl yn myd Duw, nis gwn. Pa un a fu gwyrthiau erioed, ai ni fu, sydd fater o dystiolaeth. A ydyw'r tystiolaethau yn gyfryw y gellir ymddiried ynddynt? Dylid cofio y gall tystiolaeth fod yn ddi-dwyll, ac eto yn gamsyniol. Nid yw yr honiad fod yr ysgrifenwyr Beiblaidd yn dwyllwyr am eu bod wedi cofnodi ystraeon am wyrthiau nad oeddent wyrthiau mewn gwirionedd yn haeddu sylw. Byddai cyn hawdded genyf gredu fod yr haul wedi aros ar ei chwrs—y mwyaf anhebygol o'r oll o'r gwyrthiau—a chredu fod Ioan wedi dyfeisio anwireddau er mawrhau clod ei feistr. Y mae tystion yn fynych yn ddi-dwyll, tra y mae eu tystiolaethau yn anheilwng o ymddiriedaeth. Yr oedd y rhai a roddasant dystiolaethau parthed dylanwadau niweidiol a gweithredoedd dinystriol dewinesau yn hollol onest, a chredent fod pob gair a ddywedent yn wir; ond gwyddom ni yn awr eu bod yn camsynied. Wrth sylwi ar gleifion o'r parlys a'r rhai a flinid gan gythreuliaid yn cael eu gwella, naturiol oedd i fobl anwybodus Galilea i lefain allan—gwyrth! gwyrth! tra y mae yn wybyddus bellach nad oedd yr adferiadau hyn i iechyd ond enghreifftiau o'r dylanwad fedr un dyn gael ar ddynion ereill dan amgylchiadau neillduol. Gwyddom ni, yr hyn na wyddid flynyddoedd yn ol, mor fawr yw dylanwad y meddwl ar y corff; sut, trwy weithredu ar y dychymyg, a thrwy nerth ffydd fyw, gref, y mae dynion wedi cael adferiad iechydol rhyfeddol a disymwth yn unol a deddfau naturiol. Y mae twyll-feddygiaeth yn fynych wedi cymeryd mantais ar hyn. Ond cadarnheir fod y fath adferiadau iechydol a hyn yn bosibl, hyd yn nod yn digwydd, gan dystiolaethau y fath awdurdodau a'r Dr. Maudsley a Dr. Carpenter. Byddai adferiad y claf o'r parlys i iechyd, felly, yn wyrth i fobl y ganrif gyntaf o'n cyfnod, tra nad yw yn wyrth i ni. Mewn clefydau gieuol yn unig, sylwer, y mae'r adferiadau hyn yn bosibl.

Ond heblaw yr adferiadau hyn i iechyd, y mae yn yr Efengylau nifer o weithredoedd nerthol o natur wahanol, megis, adferiad y glust

a dorwyd ymaith gan Petr, melldithiad y ffigysbren, y gefnaint foch yn cael eu gyru i'r môr, yn y rhai na fedr ffydd chwareu un rhan. Ni allwn bellach edrych ar yr hanesion hyn ond fel chwedleuon a ddaethant i'w ffurf bresenol yn nghwrs y cyfnod rhwng marwolaeth Iesu a'r adeg yr ysgrifenwyd yr Efengylau.

Y mae llawer yn ein dyddiau ni yn ymwrthod â phob gwyrth ond â'r rhai gofnodir yn y Beibl. Nid yw gwyrthiau y Bwddhiaid a'r Brahminiaid a'r Mahometaniaid ond twyll; felly hefyd eiddo'r Eglwysi Groeg a Rhufain; tra y rhoddir derbyniad i wyrthiau y Beibl. Ond os yw'r pwnc i'w benderfynu trwy dystiolaethau, y mae tystiolaethau mor gryf dros lawer o wyrthiau y crefyddau uchod ag sydd dros wyrthiau y Beibl. Darllenwn yn y Testament Newydd am olwg yn cael ei adfer i ddyn dall. Adrodda St. Awstin am wyrth gyffelyb yn ei ddydd—golwg yn cael ei adferu i ddyn hollol ddall trwy iddo gyffwrdd a chadach oedd wedi ei osod ar wyneb corff marw merthyr enwog. Nid yw hyn ond twyll, meddai amddiffynwr gwyrthiau y Beibl. Paham? Y mae'r dystiolaeth dros yr hyn adroddir gan Awstin yn llawn mor gryf ag ydyw dros y wyrth Feiblaidd.

Neu, cymerwn y digwyddiad a gofnodir yn Matthew xxvii. 52–53—adgyfodiad nifer luosog o bersonau ar ol bod yn y bedd am genhedlaethau. Wrth ddarllen yr hanes, y mae yn amlwg fod yr awdwr yn credu ei fod yn cofnodi ffaith anwadadwy. Ond i ni y mae yn yr hanes anhawsderau ydynt yn gwneud crediniaeth yn y digwyddiad yn amhosibl. Ac arweinir ni i'r casgliad nad yw'r hanes amgen na chwedl a ddygwyd i fodolaeth gan ddychymyg rhyw ddisgybl, a'r hon, pan y daethpwyd i gredu ei bod yn wir, a osodwyd i fewn yn yr hanes.

Pa werth sydd yn y gwyrthiau i ni heddyw? Ai nid gwell fyddai'r Beibl hebddynt? Colled enfawr fyddai eu tynu allan o'r Beibl. Y maent yn werthfawr am eu bod yn gyfoethog mewn awgrymiadau o wirioneddau ydynt yn gynorthwyol i feithriniaeth o'r bywyd ysprydol. Ond hyd yn nod pe tynid hwy allan o'r Beibl, beth fyddai genym ar ol? Bron pob peth o werth. Byddai genym hanes yn yr hwn y portreadir i ni ddadblygiad graddol un genedl fechan yn foesol ac ysprydol, ac yn yr hwn yr amlygir i ni beth sydd yn gwneud cenedl yn un gref a dedwydd. Byddai genym hanes deddfroddwyr, gweledyddion, beirdd, prophwydi, a roddasant fynegiad mewn geiriau addas i bob oes i obeithion, i ddyheadau, i ffydd fuddugoliaethus y galon ddynol. Ac yn benaf oll, byddai genym un cymeriad, arbenig yn hanes yr hil ddynol, yr hwn, yn ei brydferthwch moesol, yn ei dynerwch, yn ei gariad at y gwir, yn ei fywyd ysprydol cryf, yn ei gydymdeimlad, a deilynga ei gyfrif fel "y cyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer."

Y GYNHADLEDD GENEDLAETHOL.

Cynaliwyd cyfarfodydd tair-blynyddol y Gynhadledd uchod yn Birmingham tua haner mis Ebrill diweddaf. Meddyliwn efallai y byddai rhyw ysgrif-bin mwy celfydd na'm heiddo i wedi rhoddi hanes y gweithrediadau i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD cyn hyn, ond gan nad oes un wedi gwneud hyny gwnaf fy ngoreu i roddi braslun o honynt. Ond cyn gwneud hyny gadewch i ni edrych i mewn a gwel'd beth yw'r Gynhadledd ei hun a sut y daeth i fodolaeth. Galwyd yr un gyntaf yn nghyd yn y flwyddyn 1882 gan Bwyllgor y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, a chyfarfu yn Lerpwl. Rhoddwyd gwahoddiad i holl weinidogion a chynulleidfaoedd Undodaidd y wlad i fod yn bresenol neu anfon cynrychiolwyr, a gofynwyd i amryw ddynion blaenllaw tuallan i'r cylch Undodaidd gymeryd rhan, ond yr unig un i roi ateb ffafriol oedd y Parch. Joseph Wood, yr hwn oedd pryd hyny yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Leicester a'r hwn sydd wedi hyny wedi gwneud gwasanaeth gwerthfawr i'r Gynhadledd, yn enwedig fel ei Llywydd o 1906 i 1909. Bu llwyddiant mawr y Gynhadledd hon yn achos i un arall gael ei chynal yn Birmingham yn 1885, ac wedi hyny cynhelir hwy yn rheolaidd bob tair blynedd. Mae'r cyfarfodydd wedi bod bob amser yn agored i bawb ddewisant eu mynychu, ond oherwydd diffyg gofod ac er mwyn eu gwneud i gynrychioli y cynulleidfaoedd, cyfyngir y gwahoddiadau personol i weinidogion ac un neu ddau gynrychiolydd (dau yn y gynhadledd olaf yma) o bob cynulleidfa. Yn raddol mae y Gynhadledd wedi dod i gael ei chydnabod fel geneu ein heglwysi trwy yr hwn y gwnant yn hysbys eu dymuniadau a'u hangenion. Heb hawlio na cheisio enill unrhyw awdurdod eglwysig dros y cynulleidfaoedd, mae bob amser wedi ymdrechu eu dwyn yn nes at eu gilydd yn rhwymau cyd-gyfeillach a chydweithgarwch ac i'w gwneud yn gryfach a mwy effeithiol trwy helpu eu gilydd.

Beth mae wedi wneud yn barod yn y cyfeiriad hwn? Heblaw dwyn yr eglwysi yn nes at eu gilydd, fel yr awgrymais uchod, a'u hysprydoli a'u nerthu trwy y teimlad eu bod yn perthyn i gorph eangach o grefyddwyr nag a feddyliodd llawer o honynt, yn enwedig y rhai ydynt yn gorfod dal y caerau mewn lleoedd unig, mae hefyd wedi bod yn achos sefydlu y *Sustentation Fund* er ychwanegu at gyflogau bychain llawer o'n gweinidogion a'r hon gynorthwya bron yr oll o'n eglwysi Cymreig i roi rhywbeg tebyg i gyflog resymol, neu *living wage* (fel y dywed y Sais) i'w gweinidogion. Sefydlwyd y gronfa hon yn nghyfarfod cyntaf y Gynhadledd. Yna yn 1902 ffurfiwyd cronfa arall a elwir y *Ministers' Pension and Insurance Fund*, trwy ba un y galluogir yn agos i un ran o dair o'n gweinidogion i wneud rhyw ddarpariaeth ar gyfer henaint a marwolaeth. A chychwynwyd mudiad yn y Gynadledd ddiweddaf yn Birmingham er gwneud darbodaeth mwy cymhwys ar gyfer angenion y gweinidogion. Mae y dynion a'r benywod hyn (mae'n dda genym feddwl fod genym yn awr ddwy ddynes yn y weinidogaeth reolaidd—aed eu nifer ar gynydd) wedi aberthu pobpeth yn yr achos da ac nid yw ond iawn a theilwng iddynt gael eu diogelu rhag angen a thlodi.

Mae yna o bryd i gilydd bregethwyr o enwadau ereill yn ceisio am gael derbyniad i'r enwad Undodaidd. Gwna y rhan fwyaf o honynt hyny oddiar amcanion a chymhelliadau aruchel, h.y., nis gallant mwyach bregethu syniadau poblogaidd yr enwadau iawnffyddol ac hiraethant am ryddid i draethu yn ddiofn y

goleuni uwchaf sydd ganddynt, ond y mae yna rai geisiant am fynediad oddiar gymhelliadau llai anrhydeddus, fel engraifft, maent efallai oherwydd rhyw ffaeledd neu gilydd—ffaeleddau moesol fynychaf—wedi bod yn fethiant yn yr enwad y dygwyd hwy i fyny ynddo; a gall rhai fel hyny wneud llawer o niwed, ac fel mater o ffaith gwnant hyny yn achlysurol, i'r cynulleidfaoedd wasanaethant. Nid yw felly ond iawn a doeth fod yna bwyllgorau dros wahanol ranau o'r wlad i edrych i mewn i hanes a chymeriad pob gweinidog geisia am dderbyniad i weinidogaeth ein eglwysi rhyddion; a gwasanaeth arall y mae'r Gynhadledd Genedlaethol wedi wneud yw ei bod wedi bod yn achos i sefydlu'r fath bwyllgorau, o'r rhai y mae yna yn awr bump mewn gweithrediad—un o honynt dros Gymru, neu yn hytrach efallai ein eglwysi Cymreig. Yn mhellach, gwna'r Gynhadledd lawer o waith da trwy ddwyn gweinidogion heb eglwysi ac eglwysi heb weinidogion i gysylltiad a'u gilydd fel ag i arwain i sefydliad lle maent yn taro eu gilydd, ac hefyd trwy ofalu am gyflenwad y weinidogaeth trwy gymhell dynion ieuainc (a merched hefyd o hyn allan, gobeithio), o alluoedd disglaer a chymwys ac o gymeriadau pur a dilychwin i barotoi ar gyfer y gwaith da hwnw. Mewn cysylltiad a'r Gynhadledd mae yna wedi dod i fodolaeth ddau Undeb ydynt yn barod wedi gwneud cryn lawer o ddaioni yn ein eglwysi a'r rhai ydynt, mi gredaf, yn sicr o wneud llawer rhagor yn y dyfodol, meddyliaf Undeb y Brawdoliaethau (*Guild's Union*) a'r Undeb er gwneud gwasanaeth cymdeithasol. Amcan y blaenaf yw dwyn pobl ieuainc ein eglwysi at eu gilydd a'u huno yn un frawdoliaeth er amcanion crefyddol a chymdeithasol a'u gwneud yn aelodau selog a gweithgar o'r eglwysi; a cheisia'r Undeb arall, yn unol a'i enw, wneud rhyw gymaint o wasanaeth i'r wlad yn gyffredinol a'r ardal lle y bydd, trwy astudio yn ofalus gwestiynau cymdeithasol dyrus y dydd, trwy geisio taflu goleuni newydd arnynt a'u dadrys, os yn bosibl, o'r dyryswch y maent ynddo yn aml; ceisia aelodau yr Undeb hwn hefyd yn aml wneud rhyw waith ymarferol cymdeithasol yn yr ardaloedd lle maent yn byw. Felly fe welir fod gan y Gynhadledd Genedlaethol nid yn unig orphenol anrhydeddus, ond hefyd ddyfodol addawol ddylai enill iddi gynorthwy calonog pawb deimlant unrhyw ddyddordeb yn llwyddiant ein eglwysi.

Cymaint a hyna am y Gynhadledd yn gyffredinol, ac yn awr ychydig eiriau am y cyfarfodydd diweddar yn Birmingham. Fel y dywedais yn barod cynaliwyd hwy tua haner Ebrill—o'r 15fed i'r 19eg, i fod yn gywir. Daeth oddeutu 420 o weinidogion a chynrychiolwyr yn nghyd o bob rhan o'r wlad lle mae yna gapel neu gapelau Undodaidd, ac heblaw hyny 'roedd yna lawer iawn o gyfeillion yr achos yn bresenol o dre Birmingham a'r cylch. Gwanaidd ddigon mae'n ddrwg genyf ddweyd, y cynrychiolid Cymru yn y cyfarfodydd, ac yn enwedig Sir Aberteifi; yn wir, allan o'r pymtheg capel sydd yn y sir (a chyfrif Penrhiw) dim ond un o honynt a hwnw gyda'r gwanaf a'i hystyriodd yn werth i ddanfon cynrychiolydd o gwbl, ac nid oedd cymaint ag un o'r gweinidogion yn bresenol ychwaith. Dengys hyn ddiffyg dyddordeb rhyfedd ar ran ein cynulleidfaoedd yn ngwaith y Gynhadledd ac hyderaf mai dyma'r tro olaf y dangosant eu hunain mor ddifater ar y pen hwn. Yn sicr, os gall cynulleidfa fechan fel eiddo Heol Newydd, Aberystwyth, anfon cynrychiolydd, gallai a dylai holl gynulleidfaoedd ereill y Sir (ag eithrio Penrhiw) anfon un neu ragor. Oblegyd rhoddid gwahoddiad i ddau gynrychiolydd o bob capel neu eglwys, heblaw'r gweinidog, er mai dim ond i un o honynt y cynygid llety ac ymborth yn rhad yn ystod yr amser yr eisteddai'r Gynhadledd. 'Roedd y cyfeillion yn Birmingham wedi gwneud pob parotoadau posibl er rhoddi croesaw teilwng i'r Gynhad-

ledd i'w tref, a theimlad pawb, mi gredaf, oedd nas gallai'r trefniadau fod lawer yn well. Cynhelid y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn Neuadd y Dref, adeilad mawr ac eang, cymhwys iawn i'r gwaith, ereill yn y *Birmingham & Midland Institute* gerllaw, ac ereill eto (rhyw ddau neu dri) yn eglwysi Undodaidd y dref.

Yn gyntaf daeth cyfarfod blynyddol y *Guild's Union* yn eglwys brydferth yr *Old Meeting* prydnawn dydd Llun a'r cyfarfod cyhoeddus yn nglyn â'r un Undeb yn yr hwyr. Bwriedid hwn yn fwy neillduol i'r bobl ieuainc ac yr oedd yr eglwys eang, hardd, braidd yn llawn o honynt hwy yn nghyd a rhai wedi gweled rhagor o ddyddiau. Cymerwyd y gadair gan y Llywydd, y Parch. J. J. Wright, Chowbent. Cafwyd pedwar anerchiad pwrpasol ac addysgiadol iawn yn trin ar y cyfan ar waith y Brawdoliaethau yn yr Eglwysi, ac ynddynt tarawyd tant glywyd trwy yr oll o'r cyfarfodydd—tant gobaith a ffydd mewn dyfodol disglaer i'r achos da gefnogwn ond i ni fod yn ffyddlon i'n hargyhoeddiadau uwchaf. Nodweddid y cyfarfod gan frwdfrydedd ac yni ieuenctid, o'r rhai 'roedd y canu hwylus yn ddangoseg bur gywir. Er i'r rhan fwyaf o'r dieithriaid gyrhaedd Birmingham dydd neu nos Lun, nid oedd y Gynhadledd i ddechreu yn swyddogol cyn prydnawn dydd Mawrth. Felly wedi treulio boreu hyfryd gyda'i letywr, Mr. Joinson (gynt o Cellan ac Aberystwyth) trwy gymeryd tro allan i'r wlad ffrwythlawn a phrydferth o amgylch Birmingham—y pryd hyny yn ngogoniant cyntaf y gwanwyn, wele'r ysgrifenydd, wedi diwallu angenion y corph, yn cyfeirio ei gamrau (trwy gyfrwng y càr trydanol) i Neuadd y Dref, lle'r oedd yn barod gwmni mawr wedi dod yn nghyd pan gyrhaeddodd. Amcan penaf y cyfarfod cyntaf hwn oedd rhoddi croesaw calonog i'r cynrychiolwyr oeddynt yn bresenol o wledydd tramor. Y tro hwn nid oedd ond cymharol ychydig o honynt ac ni enwyd ond dau, sef y Parch. Dr. Crothers, dros Gymdeithas Undodaidd American-aidd a'r Athro Erdmens yn cynrychioli Eglwysi Rhyddfrydig Holland. Croesawyd hwy gan Lywydd y Gynhadledd, y Parch. H. E. Dowson, Gee Cross, ac hefyd gan Lywydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, Mr. Charles Hawkesley. Ar ol i'r ddau gynrychiolydd ateb yn bwrpasol daeth y rhan yma o'r gweithrediadau i derfyn. Yna awd trwy gryn dipyn o fusnes oedd ar y cyfan braidd yn sych, ond yn mhlith pethau ereill etholwyd y Llywydd newydd yr hwn yw Mr. Hugh R. Rathbone, aelod o deulu enwog Rathbone, Lerpwl, y rhai ydynt wedi gwneud cymaint dros Undodiaeth a thros y wlad yn gyffredinol. Am 7.30 cafwyd gwasanaeth crefyddol gydag un bregeth. Nid yw'r Saeson mor hoff o bregethau ag ydym ni yn Nghymru—dim ond dwy gawsom yn ystod yr holl gyfres yma o gyfarfodydd o ddydd Llun i ddydd Gwener, tra gyda ni mae'n arferiad i gael rhyw chwech neu ragor mewn Cwrdd Cwarter. Maent hwy yn fwy ymarferol a rhoddant fwy o amser i drin pethau sydd a fynont â llwyddiant ein eglwysi a'u cysylltiad â'r mudiad cymdeithasol. Y pregethwr y noson hon oedd y Parch. Henry Gow, Hampstead, a'i destyn: ein cysylltiad â'r gorphenol. Cafwyd pregeth rymus, afaelgar ganddo, braidd yn athronyddol efallai ar adegau, ond eto ai at wreiddyn y mater. Boreu dydd Mercher, am 9.30 cynhaliwyd Cwrdd Cymundeb (fel y dywedwn ni yn Sir Aberteifi, beth bynag) yn Eglwys yr *Old Meeting*. Rhoddwyd anerchiad pwrpasol i'r achlysur gan y gweinidog, y Parch. Joseph Wood, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. E. J. Fripp, Leicester. Yna am gwarter i un-ar-ddeg daeth araeth y Llywydd—yn Neuadd y Dref. Gwnai dda i lawer o'n pobl yn Nghymru i glywed yr araeth hon. Dywedai fod ein eglwysi yn rhy neillduedig, yn rhy anibynol, na chymeraint ddigon o ddyddordeb mewn materion tuallan i'w cylch bychan eu hunain ac anogai hwy i ddod allan

o'u cell, fel pe tae, ac anadlu awyr eangach. Dygid cynygiad o'u blaen, meddai, i godi cronfa er ychwanegu cyflogau y gweinidogion fel na fyddo i un o honynt mwyach i gael llai na chan punt y flwyddyn ; ac yn y prydnawn pasiwyd hyn gan y Gynadledd. Cyn hyn, er hyny, cafwyd dau bapyr athronyddol—un ar yr athronydd Ffrengig Bergson gan yr Athro Jacks, o Goleg Manchester, a'r llall ar "Gristionogaeth a'r Ddelfryd Foesol," gan y Canon Lilley, o Henffordd—dau bapyr dysgedig iawn a digon dyddorol, ond yn rhy ddwfn i'r rhan fwyaf o'r gwrandawyr. Rhoddwyd y prydnawn i fyny i drin materion sydd a fynont â lles a llwydd ein cynulleidfaoedd, sef, yn benaf, cael mwy o gyd-weithrediad rhyngddynt a gwella cyflwr materol y gweinidogion. Yn yr hwyr cafwyd y *conversazione*, neu'r noson lawen, arferol, pryd y croesawyd y gwahoddedigion—ac yr oedd pob gweinidog a chynrychiolydd yn nghyd a llawer ereill wedi eu gwawdd—gan gadeirydd y pwyllgor lleol, Mr. Byng Kenrick ai wraig. Treuliwyd noson ddifyr ddigon mewn ymgomio, mewn gwrando ar gerddoriaeth felus ac mewn gofalu am angenion y corph. Y peth cyntaf dydd Iau oedd gwasanaeth crefyddol yn Neuadd y Dref pryd y traddodwyd pregeth darawiadol iawn gan y Parch. Dr. Crothers, sylfaenedig ar y geiriau welir yn Ail Lyfr Brenhinoedd ix. 13, sef ateb y Sunamees i'r Prophwyd Elisëus—"*Hithau a ddywedodd, yn nghanol fy mhobl yr ydwyf yn trigo.*" Pwnc y bregeth oedd ffyddlondeb mewn crefydd, neu yn fwy cywir efallai, cymhwysir yr egwyddor o ffyddlondeb neu ymlyniad at amcanion uwchaf crefydd, a chreodd argraff ddofn ar bawb o'r gwyddfodolion.

Am un-ar-ddeg cynaliwyd cynhadledd ar "Arwyddocâd Iesu i'w Oes ei hun ac i'r Oes hon." Darllenwyd dau bapyr—un ar yr hyn feddyliai Iesu i'w oes ei hun, gan Mr. C. J. Montefiore o Lundain, arweinydd y mudiad Rhyddfrydig yn yr Eglwys Iddewig, a'r llall ar yr hyn feddyliai Iesu i'r oes hon, gan y Parch. J H. Rossington o Belfast. O'r ddau rhaid i mi gyfaddef mai'r cyntaf oedd y mwyaf dyddorol o lawer i mi, am y rhoddai wedd newydd ar gysylltiad Iesu â'i oes ac yn enwedig â'i genedl ei hun. Gwnai dda i lawer o bobl ydynt yn barod i guro ar yr Iddewon ac yn neillduol ar yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid i glywed neu ddarllen papyr Mr. Montefiore. Dywedai fod yr hyn oedd yn newydd yn addysgiadau yr Iesu yn gymharol ddibwys mewn cymhariaeth i'r hyn oedd yn barod yn meddiant yr Iddewon ac mai prif effaith ei waith oedd gwneud yr hyn oedd oreu yn Iddewaeth yn wybyddus i'r cenedloedd a thori i lawr i raddau y gagendor rhwng yr Iddew a'r cenedlddyn. Pa un a allwn gydweld ag ef a'i peidio, mae yna yn sicr lawer i ddweyd dros ei safbwynt. Nid oedd dim *neillduol* yn mhapyr Mr. Rossington. Yn y prydnawn cafwyd cynhadledd arall—y tro hwn ar gwestiynau cymdeithasol, ac yn hon cawsom beth oedd i'm tyb i y papyr neu'r anerchiad mwyaf hyawdl yn yr holl Gynhadledd. Hwn oedd papyr ein cyd-wladwr, y Parch. J. M. Lloyd Thomas, Nottingham, ar "Yr Hèr Gymdeithasol i'r Eglwysi." Fflachiai tân brwdfrydedd Celtaidd trwyddo a nodweddid ei arddull a'i ieithwedd gan y dychymyg Cymreig. Anogai Mr. Thomas yr eglwysi a'u haelodau i gymeryd rhagor o ddyddordeb mewn cwestiynau a gwelliantau cymdeithasol, ond dywedai na ddylai yr eglwysi fel y cyfryw ymyryd mewn gwleidyddiaeth. Beth sydd eisiau, meddai, yw sancteiddio cymdeithas ac nid bydoli'r eglwys ; dylai'r olaf wneud i ni deimlo mwy o gyfrifoldeb dros ein gilydd ac mewn perthynas i'r modd yr enillwn ac y gwariwn ein arian. Anerchiad gwir ddyddorol yn mhob ystyr oedd hwn ac amlwg oedd fod pawb yn cael eu swyno gan hyawdledd a brwdfrydedd y siaradwr. Yna cafwyd papyr byr ar "Ddiffyg Gwaith" (*unemployment*) gan Mr. John Ward, A.S., ond nid oedd efe ei hun yn bresenol i ddarllen ei bapyr. Yn yr hwyr cynaliwyd cyfarfod cyhoeddus a thraddodwyd anerchiadau galluog

a phwrpasol iawn i'r amgylchiad gan y Parch. W. G. Tarrant (Llundain), Dr. Crothers, Mrs. H. D. Roberts (Lerpwl), Parch. F. K. Freeston (Llundain), a Mr. Fred Maddison (Llundain). Siaradai Mrs. Roberts a Mr. Maddison ar gwestiynau rhyfel a heddwch a'r lleill ar gwestiynau crefyddol neu rai yn dal perthynas â chrefydd. Dydd Gwener fel y dyddiau cynt cawsom yn gyntaf wasanaeth crefyddol pryd y rhoddwyd anerchiad gan yr henafgwr Dr. Drummond (Rhydychen). Yna ar ol talu diolchiadau i bobl dda Birmingham am eu caredigrwydd yn ystod y Gynhadledd, cafwyd cyfres o bapyrau ar "Ein Bywyd a'n Sefydliadau Cynulleidfaol" gan bedwar o wahanol siaradwyr, o'r rhai 'roedd dwy yn fenywod, a'r oll yn dda ac yn deilwng o sylw. Yn olaf cawsom anerchiad ar "Weddi" gan Dr. Mellone (Llundain) a chyda hon daeth y Gynadledd i derfyn. Bydded fod i'w bendithion aros gyda ni yn hir!

D.J.D.

Y PARCH. GEORGE NEIGHBOUR.

Y mae'r Eglwys Flaenfynedol sydd yn Mountain Ash wedi uno â Chymdeithas Undodaidd Dwyrain-Ddeheudir Cymru. Nid yw'r digwyddiad yn un cyffredin, ac am y rheswm hyny hawlia ychydig o'n sylw. Ond yn nghyntaf gair neu ddau o hanes ei gweinidog a'i sylfaenydd y Parch. George Neighbour. Cafodd ei eni yn Llundain yn y flwyddyn 1862. Felly y mae wedi gweled haner canrif o flynyddau, a mor llawn ydynt o brofiad a gweithgarwch! Cofied y darllenydd mai nid yn y West End y cafodd Mr. Neighbour ei eni a'i fagu. Clywais ef yn dyweyd mewn araeth unwaith ei fod fel y doethion i gyd wedi deilliaw o'r Dwyrain. Pan yn blentyn perthynai i'r Eglwys Sefydledig, ac o'r 7fed hyd y 14eg mlwydd o'i oedran cymerai ran yn y côr canu. Yna ymneillduodd i Ysgol Sabbothol oedd yn gysylltiedig ag enwad y Bedyddwyr. Pan yn ugain oed aeth trwy brofiad crefyddol fel llawer cyn ac wedi hyny. Daeth yn awr yn weithiwr selog yn nglyn a chenadaeth y Tower Hamlets, lle yr arosodd am chwech mlynedd a haner. Yn ei seithfed mlwydd ar hugain o oedran cafodd ei ddewis i fod yn gydweinidog eglwys y Bedyddwyr yn Chester. Yma y bu yn llafurio am ddeunaw mis. Aeth oddiyno i Ledbury yn Swydd Henffordd i gymeryd gofal Cenadaeth o dan nawdd Arglwyddes Henry Somerset. Yn mhen tair blynedd symudodd i gymeryd gofal eglwys y Bedyddwyr yn Long Hope. Ar ol bod am dair blynedd arall yma aeth i fugeilio y chwaer eglwys yn Ruardean Hill. Wyth mlynedd ar ol hyn yr ydym yn ei gael yn gweinidogaethu i eglwys y Bedyddwyr yn Miskin, Mountain Ash. Gŵyr y sawl sydd yn adnabod Mr. Neighbour mai nid person yw i aros yn hir ar y clawdd ffin. Ei anhawsder mawr oedd cysoni ffeithiau bywyd beunyddiol a'r ddiwynyddiaeth oedd wedi ei dysgu iddo pan yn ei ieuenctyd. Yr oedd wedi bod yn myfyrio llawer ar weithiau Channing ac awduron Undodaidd ereill, ac yn enwedig ysgrifeniadau J. B. yn y "*Christian World*." Tuedd ei feddwl a'i holl natur bob amser oedd symud yn mlaen yn gymdeithasol ac yn ddiwynyddol. Erbyn y flwyddyn 1907 yr oedd cyflwr pethau wedi

dyfod mor anymunol a drwg-dybiaeth awdurdodau'r enwad gymaint yn ei erbyn fel y penderfynodd adael yr eglwys a chwilio am le eangach. Daeth mwyafrif y gynulleidfa ar ei ol. Am dair blynedd a haner cadwasant wasanaeth yn ysgol Miskin. Yna prynasant dir mewn man pwrpasol er mwyn adeiladu neuadd. ca Mr. Neighbour y pleser o weled y lle yn llawn. Nid oes cymaint yn ymgynull yn y bore, gan eu bod yn wasgaredig, ond yn y prydnawn mae ganddo Ysgol Sul sydd yn rhifo tua chant. Gan mai gweithwyr yw yr aelodau bron i gyd y maent wedi herwydd y *strikes* ydynt wedi bod yn dyoddef llawer yn ddiweddar yn

Y PARCH. GEORGE NEIGHBOUR.

Cafodd ei hagor ar yr 20fed a'r 21ain o Dachwedd, 1910. Pregethwyd ar y Sul gan y Parch. J. Park Davies, Pontypridd. Nos Lun, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus o dan lywyddiaeth Mr. L. N. Williams, Y.H., Aberdar, a siaradwyd gan y gweinidog, a'r Parchn. Oliver Bowen, B.A. (B.), Caerdydd ; a J. Park Davies. Y mae lle yn y neuadd i ryw 250 o bersonau i eistedd, ac nid yn anaml dyfod un ar ol y llall, megys tònau'r môr. Mewn gwirionedd, y gorchwyl cyntaf gyflawnwyd yn y neuadd newydd oedd rhoi cwpanaid o "gawl" i un o dlodion y lle: "Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai bychain hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch." Prif angen y gweinidog a'i gynulleidfa yn awr oedd cyfeillach. Hyn a'u gyrodd i geisio am uniad a'r Gymdeithas Undodaidd

Estynodd Mrs. Reid, y llywydd, groesaw calonog iddynt yn y Cyfarfod Chwarterol yn Nottage, ar y 29ain o Ionawr, yn y flwyddyn bresenol. Yr Undodwr cyntaf i dalu ymweliad a Mountain Ash ar ol y digwyddiad hwn oedd y Parch. T. P. Spedding. Fel cynrychiolydd y B. & F. U. A., cynhaliodd gyfarfod yn y lle nos Fercher, y 13eg o Fawrth. Rhai o brif ffyddloniaid yr achos yw Mrs. Smith, ynghyd ac aelodau eraill o'r un teulu caredig a pharchus, a'r oll yn Undodiaid twymgalon o'u genedigaeth. Felly cyfeiria yr holl arwyddion yn Mountain Ash at ddyfodol dysglaer i'r egwyddorion y mae Undodiaid bob amser wedi sefyll drostynt. Gallwn edrych ar Mr. Neighbour fel un o'r milwyr goreu yn ein byddin. Y mae ganddo neges, a thân, a hyawdledd i'w draethu. Y mae ei enw a'i lais yn adnabyddus yn mhob rhan o Morganwg, a phleser fydd genym yn awr gael ei glywed yn y gwahanol bwlpudau Undodaidd.

J. P. D.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.

Gyda gwawriad boreu Llun, y 10fed o Fehefin, boreuddydd ein Cymanfa Gerddorol Flynyddol, y gofyniad cyntaf ddaeth i'm meddwl oedd—Pa fath ddiwrnod oedd yn ein haros? ai ffafriol ynte anffafriol yr arwyddion am ddiwrnod dymunol? Dyna yn ddiau oedd profiad y canoedd o'm cyd-grefyddwyr fwriadent fyned i Aberduar. Gwyliem y cymylau yn ymlid eu gilydd, a chodai neu gostyngai'r hwyl yn ol fel y cilient neu yr amlhaent. Pan ddaeth ambell i ddyferyn o wlaw tua'r adeg i gychwyn, fe'm meddianwyd gan ryw gymaint o anobaith. "Gwlyb fydd y diwrnod," meddwn, mewn goslef bron bod yn wylofus. Golygai hyn aflwyddiant i'r gymanfa. Rhwystrid llawer i ddod yn nghyd, ac ni fyddai'r yspryd cerddorol mor hwylus. Perai hyn i mi gryn dipyn o ofid, oherwydd, er y broffes i'r gwrthwyneb, y mae yn fy mynwes gryn dipyn o'r yspryd enwadol. Er mai ychydig yw nifer ein heglwysi ac nas gallwn ymffrostio yn lluosogrwydd ein cynulleidfaoedd, eto, awyddus iawn ydwyf dros i ni roi cyfrif da am danom ein hunain ar achlysuron o'r fath hyn. Ni pharhaodd yr anobaith yn hir, fodd bynag, gan i'r awyrgylch glirio yn fuan, a chawsom un o'r diwrnodau mwyaf ffafriol—diwrnod delfrydol—i gynnal cymanfa. Pan gyrhaeddwyd i Llanybyther, gwelais arwyddion calonogol iawn o gymanfa lwyddianus, mor bell ag oedd nifer y gwyddfodolion yn myned. Ond rhaid i mi gyfaddef na ddisgwyliwn iddi fod y llwyddiant y trodd allan, nid yn unig yn lluosogrwydd y dorf ddaeth yn nghyd, ond yn mhob ystyr arall.

Dechreuwyd gwasanaeth y boreu yn fuan ar ol deg o'r gloch. Ar yr adeg y dechreuwyd yr oedd y capel eang yn gysurus o lawn; ond rhwng hyny a therfyn y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth, daeth y cerddorion i'w lleoedd yn dda iawn o ddi-dwrw, er nad yn hollol felly, fel, pan y cododd yr arweinydd, Mr. J. R. Thomas, C.M., Pontsian, ar ei draed i ddechreu ar waith y dydd, yr oedd pob sedd, pob congl, a phob tramwyfa, o'r adeilad yn orlawn. Llywydd y boreu oedd gweinidog y lle—y Parch. D. Spenser Jones, B.A. Llanwodd y gadair yn mhob ystyr, ond un, efallai. Dyn bychan o gorpholaeth ydyw, a thebyg fod cryn lawer o'r gadair yn

wag pan yr eisteddai ynddi. Yn mhob ystyr arall gwnaeth lywydd ardderchog. Cafwyd ganddo anerchiad pwrpasol a defnyddiol, ac yr oedd ei eiriau croesaw i ni yn wresog a brawdol. Canwyd y rhan fwyaf o'r tonau yn y rhaglen yn ystod cyfarfod y boreu, yn nghyd a'r anthem. Y llywydd yn y prydnawn oedd y Dr. Jones, Llanybyther. Cawsom ganddo yntau hefyd anerchiad a wnaeth argraff ddymunol neillduol ar y gynulleidfa. Clywais lawer gair o ganmoliaeth iddi ar ol hyny. Gwelir yr anerchiad yn y rhifyn hwn. Aethpwyd trwy'r oll o'r rhaglen a'r anthem yn y prydnawn. Felly canwyd y rhan fwyaf o'r tonau ddwywaith yn ystod y dydd, a rhai deirgwaith, yn enwedig "Y Bugail Da." Yn ystod y cyfarfodydd cafwyd anerchiadau gan Hughes, Rhydyfydr; Jones, Garthowen; Thomas, Talgareg; Jenkins, Llwynrhydowen; Thomas, Pantdefaid; a Davies, Alltyplacca. Cafwyd gan bob un o honynt sylwadau gwerthfawr ac awgrymiadau defnyddiol. Cyfeiliwyd yn ystod y dydd gan Miss Jenkins, Blaenwaunganol; Miss Jones, Brynowen; a Miss Thomas, Talgareg. Aethant trwy eu gwaith yn effeithiol a chanmoladwy iawn. Gorphenwyd gwaith y dydd trwy gynal cyfarfod pregethu yn yr hwyr. Awd trwy y rhan ddefosiynol gan y Parch. Mr. James, Rhydybont, a phregethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, Llwyn, a J. Davies, Alltyplacca.

Beth am y gymanfa? Gofyniad i gerddorion yw hwn. A dyddorol iawn fyddai cael attebion rhai o honynt iddo. Ni pherthynaf fi i'r dosbarth cerddorol, a theimlaf dipyn yn yswil i ddweyd dim ar y mater. Ond bum a'm clustiau yn agored yn ystod y dydd yn gwrandaw ar yr hyn ddywedai hwn a'r llall. Beth ddywedent? Dywedent, gydag unfrydedd rhyfeddol, ei bod yn un o'r cymanfaoedd goreu ydym wedi gael eto. Dyna'm teimlad inau hefyd. Da iawn genyf hyn, yn un peth, am mai un o'n plith ni ein hunain oedd ein harweinydd. Dywedwn ni a fynwn, nid ydym eto wedi llwyr ddysgu parchu prophwyd yn ei wlad ei hun. A phe bai'r gymanfa wedi troi allan yn fethiant, tebyg iawn y byddem yn barod i roi cryn lawer o'r bai ar yr arweinydd. Yn awr, ynte, gan fod y gymanfa wedi troi allan yn gymaint llwyddiant, rhodder y clod dyledus iddo. Gwnaeth ei waith yn ardderchog. Cadwodd y gynulleidfa anferth dan reolaeth berffaith drwy y dydd; ac amlygodd ei hun fel meistr ar ei waith. Rhoddodd y cerddorion iddo yntau eu sylw goreu. Mewn gair, yr oedd pawb, yn arweinydd, cerddorion, a gwrandawyr, ar eu heithaf i wneud y gymanfa yn llwyddiant. Os oes rhyw achos i gwyno o'i blegid, y ffaith fod y fath nifer o'r cerddorion yn wasgaredig hyd y gynulleidfa ar y llawr, o ddiffyg lle ar yr oriel. Dymunol iawn fyddai pe gellid dyfeisio rhyw gynllun i gael y cerddorion yn unig ar yr oriel. Ychydig fisoedd yn ol, anturiais draethu fy marn ar y tudalenau hyn ar gynwys y rhaglen—y tonau a'r emynau. Ar ol eu clywed yn cael eu datganu y mae'm barn flaenorol wedi ei chadarnhau. Y mae y rhan fwyaf o'r tonau yn donau i aros; ac y mae'r emynau, ar y cyfan, o safon uchel—o ran syniadaeth, fodd bynag, gan nad beth am y wisg farddonol. Am yr olaf ni anturiaf draethu'm barn. Ond beth am y tonau a'r emynau ar ol y gymanfa? A glywir am danynt eto? ynte syrthio i dir ebargofiant wneir? Amser a ddengys.

Ni ddylid terfynu'r sylwadau hyn heb gyfeirio at y ffaith mai mewn capel perthynol i enwad arall (capel y Bedyddwyr) y cynhelid y gymanfa. Y mae'r ffaith fod y gymanfa wedi ei chynal yn Aberduar, ar wahoddiad unfrydol, fel y deallaf, y gynulleidfa, yn arddangosiad dymunol neillduol o gariad brawdol, ac yn arwydd o agoshad yr amser gwell y dylem oll fel Cristionogion ddyheu am dano. Nid yw cynulleidfa Aberduar yn llai iawnffyddol oblegid hyn, ac nid ydym ninau yn llai o Undodiaid. Ond y mae'r mur gwahaniaethol wedi ei ostwng yn ddigon isel i'n galluogi i

siglo llaw. Dylid cydnabod yn arbenig wasanaeth parod ysgrifenydd cynulleidfa Aberduar—Mr. Williams, Ymdaflodd gyda'r yni arferol i'r gwaith o wneud y gymanfa, mor bell ag oedd a fyno efe â hi, yn llwyddiant.

ANERCHIAD DR. JONES.

Barchus Gynulleidfa.—Ni raid i mi ddyweyd nad oes genyf araeth lywyddol orchestol, oblegid pe byddai genyf arabedd neu dafod llithrig, credaf mai nid ar achlysur fel yma y dylid eu defnyddio, gan fod i'r gymanfa hon amcan arall, sef perffeithio caniadaeth y cysegr; felly, priodol yw defnyddio'r dydd ar ei hyd i'r cyfeiriad hwnw. Ond cyn eistedd carwn ddyweyd gair neu ddau. Meddyg, onide, ysgrifenodd un o'r Efengylau, a thraethawd ar ol hyny. Y mae yn llawenydd genyf feddwl nad ydych fel pwyllgor wedi anghofio'r alwedigaeth yr wyf fi yn digwydd bod yn perthyn iddi trwy alw ar feddyg i lywyddu yn un o'ch cyfarfodydd. Nis gallwn wrthod eich cais gan y credaf y dylasai pob un roi ufudd-dod i wneud pob peth sydd yn ei allu i roi gogoniant i'r Creawdwr doeth a da, pa un bynag ai mewn cân a moliant, neu weithgarwch gyda'r achos, neu ymarweddiad mewn bywyd. Wedi cwrdd a'n gilydd yr ydym yma heddyw i berffeithio y gân o foliant, "Canys da yw canu i'n Duw ni." Ni fedraf, tra yma yn y bywyd hwn, ddyweyd na dychmygu faint o ganu fydd yn y nefoedd. Ond gwn, trwy brofiad personol, er nas gallaf ganu, ac na ddeallaf gerddoriaeth ychwaith, fod nefoedd mewn canu cyssegredig da, fel sydd yma heddyw. Gyda pharch y cydnabyddaf fod gan bregethwyr y "gair" eu dylanwad ar ddynion; ond yr wyf yn bersonol wedi teimlo lawer gwaith fod gan ganu cyssegredig ddylanwad ac argraff dda hefyd ar y galon ddynol—y teimlad arbenig hwnw nad ydyw yn meddiant yr un creadur arall ond *masterpiece* y creawdwr yn unig, sef dyn. Y mae genym hanes am lawer adyn gwael wedi cael goleu i dywynu ar ei gydwybod euog wrth glywed emyn yn cael ei ganu, ac wedi ei osod ar lwybr rhinwedd o'r newydd. Y mae genym hanes hefyd am aml i afradlon wedi troi yn ei ol i gyfeiriad bywyd yr hwn sydd "wir fywyd" wrth glywed emyn a glywodd ei dad a'i fam yn ei ganu ar yr hen aelwyd. Dywedodd Luther, wrth glywed cardotyn dall yn canu emyn unwaith, "O na fedrwn droi'r efengyl yn gân er mwyn achubiaeth dynion." Gobeithiaf y bydd i'r gymanfa droi allan yn llwyddiant ac yn fendith i'r cantorion ac i ninau oll o honom. Dywedir, cyn y bydd y gân yn berffaith, y rhaid fod cynghanedd (*harmony*) a chydsymudiad. Hyderaf y clywir gwell canu yn y gwahanol eglwysi sydd yn cael eu cynrychioli yma heddyw ar ol y gymanfa hon, a mwy na hyny, y gwelir y gynghanedd a'r cydsymudiad oedd yn nodweddiadol o fywyd ein Harweinydd a'n Harglwydd, y dyn Crist Iesu.

NODYN.—Blin iawn genyf fel ysgrifenydd y Gymanfa i mi anghofio gosod yn ein rhaglen yn y prydnawn, gyflwyno Tystysgrifau i'r plant oedd wedi bod yn llwyddianus i basio Arholiad y Tonic Solffa. Deallais fod y nifer o ysgol Caeronen, ac fod eu llwyddiant i'w briodoli i lafur Mr. Daniel Davies. Gobeithio y gwna y ffyddloniaid ieuainc hyn faddeu i mi am fy amryfusedd, ac y caiff hyn o eglurhad ac ymddiheurad ei dderbyn mewn ysbryd caredig.—T. G. T., *Ysg.*

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1912.

Cymerodd le prydnawn Mawrth, y 9fed o Ebrill. Cynhaliwyd arholiad mewn deuddeg o'n heglwysi. Drwg genym na fuasai pob un o'n hysgolion yn parotoi eu plant ar gyfer yr arholiad, a drwg iawn genym fod nifer yr ysgolion a addysgasant eu plant ar gyfer arholiad eleni mor ychydig, ac fod y nifer yn myned yn llai bron bob blwyddyn. Mae hyny yn golygu colled. Mae'r plant yn rhy ieuainc yn awr i sylweddoli'r golled. Onid oes cyfrifoldeb ar y rhai a fedrant addysgu plant yn mhob man i ofalu nad yw'r plant yn cael eu hesgeuluso?

Mae un peth yn galonogol yn nglyn a'r Arholiad eleni: mae nifer yr ymgeiswyr wedi cynnyddu eleni. Dengys hyny fod rhai ysgolion wedi gwneud yn dda. Gall ysgolion ereill wneud yn debyg. Hyderwn y gwnant felly y flwyddyn nesaf. Diolch i'r Arholwyr am eu cynorthwy.

L. WILLIAMS,
Ysgrifenydd Adran yr Ysgol Sul.

ALLTYPLACA. ARHOLWR—MR. T. OSWALD WILLIAMS.

Cyfanrif.—29.

Safon I.—Dosparth I.—Jane Grey Price, Gwinnie Anne Price, Mary Letitia Price, Annie Margretta Lewis, Dorothy Williams, David Morgan Rees, David Arthur Morgan, Elias Davies, Daniel Rees Evans, Howell Price Evans, Herbert Thomas, Howell Price, Evan Daniel Evans, Willie Bateman Rees, Gwilym John Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Mary Letitia Price, Jane Grey Price, Gwinnie Anne Price, Annie Margretta Lewis, David Morgan Rees, David Arthur Morgan, Elias Davies, Daniel Rees Evans, Howell Price Evans, Herbert Thomas, Howell Price, Evan Daniel Evans, Willie Bateman Rees, Gwilym John Evans.

BRONDEIFI. ARHOLWR—MR. D. CELLAN EVANS.

Cyfanrif —22

Safon I.—Dosparth I.—Jane Jones, Jennie Williams, Myfanny Davies, Minnie Williams, Hannah Jane Lloyd, Martha Anne Davies, Mollie Davies, Doline Turnbull, Sarah Mary Jones, Sally Davies, Thomas Henry Jones, John Lewis Jones, Tommy Charles Davies.

Safon II.—Dosbarth I.—Annie Davies, Jane Jones, Hannah Jane Lloyd, Jane Mary Davies, Margaret Ann Jones, Gwen Ellen Jones, Johnny Davies, Thomas John Egbert Davies, David John Evans.

CAPELYGROES. ARHOLWR—PARCH. J. DAVIES.

Cyfanrif—27.

Safon I.—Dosparth I.—Nancy Evans, Sophia Jones, Elizabeth Thomas, Nellie Jones, Lizzie Evans, Judith Ann Kent, Jane Mary Davies, Elizabeth Ann Davies, Tom Arthur Kent, Gwilym Jones, Daniel Thomas, Tom Lewis, David Albert Jenkins, John Morgan, Daniel Jones, James Jones, David James Evans, Evan Jones, David Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Lizzie Evans, Nellie Jones, Sophia Jones, Jane Mary Davies, Evan Morgan, John Morgan, David James Evans, Daniel Jones.

CAPELYBRYN. ARHOLWR – PARCH. D. EVANS.

Cyfanrif—26.

Safon I.—Dosparth I.—Mary Ellen Jenkins, Martha Jane Thomas, Rachel Ellen Evans, Sarah Jones, Jane Davies, Willie Evans, Idwal Davies, Evan Evans, David Brinley Evans, John Thomas.

Dosbarth II.—Nancy Charman, Evan Emrys Davies, Charlie Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Sarah Hannah Morgans, Sarah Evans, Margaretta Jemimah Davies, Maggie Evans, Elizabeth Hannah Evans, Kate Jenkins, Sarah Jenkins, Lizzie Ellen Evans, Evan Davies, John Tom Davies, William Jones, David Tom Davies, David Davies.

CAERONEN. ARHOLWR—MR. E. WALTER DAVIES, Llanbedr.

Cyfanrif—13

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Helen Davies, Mary Jane Jones, Sarah Eleanor Jones, Nancy Davies, Watkin Davies, Evan John Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Dinah Davies, Helen Davies, Nancy Davies, Mary Jane Jones, Watkin Davies, David John Jones, Evan John Jones.

CILIAU AERON. ARHOLHWR—MRS. EVANS, Maesygaer.

Cyfanrif—9

Safon I.—Dosparth I.—Olwen Evans, Evan Daniel Davies, Tom Beynon Evans.

Safon II—Dosparth I—Olwen Evans, Anne Davies, Sarah Jane Davies, Emrys Hughes, David Edwin Davies, James Davies.

CRIBYN. ARHOLWR—PARCH. L. WILLIAMS.

Cyfanrif—50.

Safon I.—Dosparth I.—Rachel Jones, Esther Jones, Sarah Jane Davies, Hannah Mary Jenkins, Margaret Anne Jones, Martha Anne Jenkins, Elizabeth Mary Davies, Hannah Mary Jenkins, Hannah Jones, Rachel Mary Harries, Mary Hughes, Margaretta Jones, Nellie Jones, Anne Jones, Sarah Jones, Esther Evans, Nancy Williams, Daniel Davies, James Herbert, David John Jones, James Evans, James Lewis, Evan Howell Jones, John Jones, D. Llewelyn Jones, Evan Aeron Williams, David Evans, James Rees Jones, Rees Owen Williams, Jenkin Harries, David Tom Evans, David Llewelyn Jones.

Safon I.—Dosparth II.—Sarah Jane Richards, Margaret Evans, John Jones, Ben R. Jenkins, Owen Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Margaretta Jones, Mary Hughes, Rachel Mary Harries, Elizabeth Mary Davies, Hannah Mary Jenkins, Hannah Jones, Esther Evans, Sarah Jones, Anne Jones, Nellie Jones, David John Jones, Daniel Davies, James Herbert.

CAPELYFADFA. ARHOLWR—MISS M. E. JONES, Pontshan.

Cyfanrif—24.

Safon I.—Dosparth I.—Maggie Crabbe, Hannah Evans, Anne Jones, David Thomas, John Jones, Daff Jones, Johnny Davies, Evan Davies, Enoch Evans, Thomas Garfield Jones, Evan Griffith Jones, Hannah Jones, Mary Evans, Kitty Evans, Margaret Jane Jones, Johnny Crabbe, David James Jones, David James Griffiths, Johnny Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Mary Thomas, Nancy James Evans, Minnie Thomas, Annie Ellen Thomas, Hannah Margaretta Jones.

HEN DY CWRDD, ABERDAR. ARHOLWR—PARCH. J. CARRARA DAVIES.

Cyfanrif—12.

Safon I. - Dosparth II.—Ada Harrison, Annie Mary Chard, Phyllis Chard, Ena Price, Maggie Roberts, Bertie Williams.
Safon II.—Dosparth I. -Margaret Jane Davies, Olwen Morfydd Morgan, Gwenhwyfar Louisa Howells, Evan Glyn Evans, Gwynfe Ceredig Morgan.
Safon II.—Dosparth II.—Robert Vivian Harrison.

LLWYNRHYDOWEN. ARHOLWR—MR. J. R. THOMAS, C.M.

Cyfanrif—15.

Safon I.—Dosbarth I.—Nellie Boyles, Rachel Richards, May Lewis, Margaret Evans, Mary Evans, Evan James.
Safon I. -Dosparth II.—Frances Mary Evans, Anne Evans, Margaret Evans M., Dewi James Jones, Dewi Oliver, Evan Daniel Jones.
Safon II.—Dosbarth I.— Anne Jane Thomas, M. Geinor Jones.
Safon II.—Dosparth II.—John Griff Williams.

RHYDYGWIN. ARHOLWR -PARCH. R. C. JONES.

Cyfanrif—33.

Safon I.—Dosbarth I.—Lizzie Anne Evans, Dinah Jenkins, Mary Ellen Evans, Mary Elizabeth Jones, Margaret Anne Jones, Mary Jane Williams, William Joseph Evans, Thomas Evans, Josiah Thomas, Thomas Evans, Rees Evans, David Evans, John Jenkyn Jones, Jenkyn Griffith Jones.
Safon II. -Dosbarth I.—Mary Jane Williams, Elizabeth Ann Evans, Mary Elizabeth Jones, Gwladys Saunders Davies, Rachel Ann Evans, Dinah Jenkins, Hannah Mary Jones, Jennie Jenkins, Hannah Mary Evans, Lizzie Evans Jones, John Evans, John Jenkins, David Thomas Evans, David Daniel Jones, John Jones, James Evans, Thomas Evans, Daniel Lloyd, Thomas Evans.

TREBANOS. ARHOLWR—PARCH. SIMON JONES, B.A.

Cyfanrif—28.

Safon I.—Dosparth I.—Gwenllian Benek, Dinah May Thomas, Annie Morgans, Margaret Ann Bowen, Alice May Roberts, Tommy Bowen, David Samuel Morgan, Arthur Thomas, Elwyn Davies, David John Bowen, Daniel Davies, David Griffith Thomas.
Safon II.—Dosbarth I. - Margaret Anne Thomas, Sarah Saunders, Sarah Ann Davies, Mary Morgans, Rachel Anne Thomas, Hannah Morgan, Esaiah Lewis Bevan, Oscar Bowen, Isaac Hopkins, Henry John Williams, William John Bowen.
Safon II. -Dosbarth II. -May Watkins, Hannah Mary Jones, May Bevan, Griffith Thomas, Henry Brynmor Morgan.

MARWGOFION.

MAI 20, John Thomas (John, gôf, Croslan, Llandyssul gynt), 8, Marion Street, Blaengarw, yn 45 oed, gan adael priod, un plentyn, brawd a pherthynasau ereill mewn galar. Claddwyd y Gwener canlynol yn Capelyfadfa, Ceredigion, a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Hughes (A), Blaengarw, ac E. O. Jenkins.

MAI 26, Martha Herbert, Bronhaf, Mydroilyn, yn 57 oed. Gadawodd i alaru ei cholled ferch, tair chwaer, brawd, a pherthynasau ereill. Claddwyd y Gwener canlynol yn Bwlchyfadfa pryd y gwasanaethwyd gan Reithor Llanarth ; y Parch. E. O. Jenkins, a Mr. T. G. Thomas.

MEHEFIN 1, David Thomas, Penrallt, Pontshaen, Llandyssul, yn 49 oed. Ar y prydnawn uchod aeth yr ymadawedig allan o'r tŷ gyda dryll yn ei law gyda'r bwriad, fel y tybiai aelodau y teulu, o wneud yntosodiad ar y brain. Dranoeth cafwyd ei gorff marw yn ymyl clawdd un o'r caeau gerllaw y ty, a chredir i'r dryll danio yn ddamweiniol pan yr oedd yn ceisio disgyn o ben y clawdd. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu, yn enwedig â'r fam, yn eu trallod a'u profedigaeth. Saith mis yn ol collodd Mrs. Thomas ei phriod, y diweddar Mr. Evan Thomas, ac yn awr wele ei mhab, dyn ieuanc, sobr, gweithgar, geirwir – un ag oedd iddo barch mawr yn y gymydogaeth – wedi myn'd eto, wedi myn'd gan adael bwlch mawr ar ei ol. Claddwyd y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, T. A. Thomas, a Wesley Morgan.

MEHEFIN 2, yn 80 oed, Alice, anwyl briod James Thomas, Crossway, Cwmsychbant, Llanwenog. Gadawodd ei phriod, chwech o blant, a llawer o wyrion i alaru ar ei hol. Claddwyd yn mynwent Capelycwm, a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y gweinidog, gyda chynorthwy caredig y Parch. T. Arthur Thomas. "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr."

MEHEFIN 5, David Thomas, Pensheting, Silian, yn 90 mlwydd oed. Adnabyddid ef yn y dyddiau gynt drwy ddeheudir Cymru o un cwr i'r llall, gan fyfyrwyr Ysgol Ramadegol Pontshan ac ereill lawer wrth yr enw "Dafydd Tomos, Frongoy," am ei fod yntau wedi treulio cryn lawer o flynyddoedd yn yr ysgol hono'n astudio gwahanol ganghenau gwybodaeth yn ei ffordd ei hun. Ac o holl fyfyrwyr y lle ni fu neb erioed yn fwy enwog nag efe. Credwn iddo gael ei eni a'i fagu mewn tyddyn o'r enw Frongoy yn mhlwyf Llandyssul, ac o'r fan hono y mynychai'r ysgol, a dyma'r rheswm ei fod yn cael ei alw a'i adnabod fel "Dafydd Tomos, Frongoy" ; ac yn ystod y blynyddoedd y bu'n yr ysgol yr oedd ef bob amser yn barchus gan eigydysgolheigion gan nad pwy fyddai heb fod, ac nid ydym yn meddwl iddo erioed gael teimlo pwysau ffon ei athraw drwy'r blynyddau i gyd. Mae'n flin gan ysgrifenydd y llinellau hyn i feddwl nad oes gobaith iddo gael cyfarfod a gwel'd gwyneb ei hen gyfaill diniwed byth mwy ar y ddaear, ac hefyd wrth gofio fod mwyafrif mawr ysgolheigion Pontshan eisoes wedi myned drwy y geledig gul adwy ac i fod yr athraw cu ei hun hefyd wedi myned gyda hwy. Ar ol iddo adael yr ysgol bu'n enill ei fywoliaeth drwy fasnachu ychydig yn mhlith ei gyfeillion a'i gydnabod, a chan nad pa mor fach a chan nad pa mor fawr oedd ei fasnach yr ydym yn teimlo na fu yr un masnachwr erioed yn fwy didwyll a gonest yn ei fasnach. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys Silian a'r offeiriad yn gwasanaethu.

MEHEFIN 6, Evan Davies, Brynmaen, Cellan, yn 42 mlwydd oed. Bu ein cyfaill farw o'r darfodedigaeth, a bu yn nychu am amser maith. Gadawodd fab a merch, mam oed-

ranus, a brawd a chwiorydd mewn galar dwys ar ei ol. Claddwyd ei weddillion yn mynwent capel Erw, Cellan, y gweinidog a'r Parch. R. C. Jones yn gwasanaethu.

MEHEFIN 8, wedi blynyddoedd o gystudd a ddioddefwyd yn amyneddgar, Mary Jones, Bwlchyberllan, Cwrtnewydd, yn 63 mlwydd oed. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog a'r Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd yr ymadawedig dri mab i alaru'n ddwys ar ol mam dyner a charedig. Nerth a gaffont i alaru'n gymedrol.

MANION AC HANESION.

PANTDEFAID.—Dydd Sul, Mai 12, cynhaliodd Ysgolion Sul y Bwlch, Llwyn, Pantdefaid a'r Graig, eu Cymanfa Ysgolion Flynyddol yn Mhantdefaid. Daeth yn nghyd gynulliad mawr nes oedd y capel yn orlawn. Holwyd y pedair ysgol gan y Parch. Arthur Thomas, ac yr oedd yn amlwg oddiwrth yr atebion parod a lluosog fod y maes llafur wedi ei lwyr feistroli. Yr oedd gwedd lewyrchus iawn ar yr holl ysgolion, a dywedwyd gan amryw mai hon oedd y gymanfa oreu yn mhob ystyr er y dechreu. Gwnaeth cyfeillesau caredig Pantdefaid yr oll fedrent er digoni y dorf fawr, a throdd eu hymdrechion allan yn llwyddiant. Arweiniwyd y canu yn effeithiol gan Mr. Evan Richards, Llandyssul. Canwyd amryw donau o'r rhaglen yn nghyd a'r anthem. Cyfeiliwyd gan Miss Jones, Brynowen, a Mrs. James, Coedfoel. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, i dyrfa fawr, ar y pwnc, "Paham yr wyf yn Undodwr?"

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yr eglwys fechan uchod dydd Sul, yr unfed-ar-bymtheg o Fehefin. Y pregethwr am y dydd oedd Mr. Ben Davies, o Ysgol Ramadegol, Caerfyrddin, a rhoddodd ei wasanaeth foddlonrwydd cyffredinol. Yn unol a'r arferiad ar achlysuon fel hwn 'roedd rhan o'r gwasanaeth yn Gymraeg, a rhoddodd Mr. Davies, hefyd ran o'i bregethau yn Gymraeg. Cafwyd cynulliadau dymunol y boreu a'r hwyr, yn enwedig yr hwyr, pan 'roedd y capel bychan bron a bod yn llawn. Gwelsom ddieithriaid yn bresenol o Aberdar, Cellan, Llundain, ac Yarmouth, heblaw Mrs. Dr. James (merch Gwilym Marles) a'i merched bach o'r India. Gallwn ddweyd yma fel mater o ddyddordeb fod tair o ferched Gwilym yn bresenol yn y gwasanaeth y Sul cyn hyny, yn nghyd a phedwar o'i wyrion (tair merch ac un bachgen bach). 'Roedd hyn yn ysprydoliaeth ac yn galondid i ni oll, ac yn wir, mae yn galondid mawr i ni bob amser i weled ymwelwyr Undodaidd yn bresenol yn y gwasanaeth ar y Sul; tra ar y llaw arall, mae yn siomiant, nid bychan, i'w gweled yn rhodiana ar y *Promenade* foreu neu nos Sul, ac yn esgeuluso rhoddi eu cefnogaeth trwy eu presenoldeb i'w brodyr a'u chwiorydd yma, ydynt yn awr er ys dros ddeng mlynedd yn dal i fyny faner rhyddid crefyddol o dan lawer o anfanteision. Y nos Sul uchod ar ol y bregeth rhoddwyd ychydig amser i drin materion perthynol i'r achos. I'r gadair etholwyd Mr. Emil Evans, Llanbadarn, mab Mrs. Evans, fu am rai blynyddau yn golofn i'r achos yma, a'r hon sydd yn etifeddes i'r bardd Ffrengig enwog, Victor Hugo.

Darllenwyd y cyfrifon am y flwyddyn gan y Trysorydd, Mr. G. Eyre Evans, y rhai ddangosent fod dros £5 mewn llaw wedi talu'r holl ddyledion a chyfranu rhyw dipyn at achosion da ereill. Cymerodd Mr. Evans hefyd y cyfleusdra i ddweyd, ar ben deng mlynedd o hanes y gynulleidfa, ei bod yn ystod yr amser yma wedi casglu dros £285, yr hyn sydd yn foddhaol iawn pan ystyrir mor ychydig yw yr aelodau rheolaidd. Ail-etholwyd yr ysgrifenydd a'r trysorydd am y flwyddyn ddyfodol, ac yna cafwyd ychydig eiriau pwrpasol iawn gan Mr. L. N. Williams, Aberdar, yr hwn oeddem oll yn falch i weld yn bresenol. Ar gynygiad Mr. Evans, yn cael ei eilio gan yr ysgrifenydd, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr. Ben Davies am ei wasanaeth, ac yn dymuno pob llwyddiant iddo ef a myfyrwyr Undodaidd ereill Cymru yn eu gwaith. Wedi cael ychydig eiriau mewn ateb gan Mr. Davies daeth cyfarfod dymunol i derfyn yn y modd arferol.—D.J.D.

GWELWN oddiwrth yr Adroddiad blynyddol 1910—1911, fod llythyron y Parch. William Thomas, M.A. (Gwilym Marles) 1863—1879, yn awr yn Llyfrgell Rydd, Caerdydd.

HAF 1911.

Esgyn wnaf i fryniau cof,
Ac yn ol fy ngolwg drof,
Dros yr Hafau ar eu hynt
Welais yn y dyddiau gynt ;
Ond er troi a throi drachefn
Ddail y blwyddi yn eu trefn,
Haf yn gwenu nes fy nenu,
  Ni ches hafal 1911.

Haf dan wên y lasnen lon,
Haf barhai hyd auaf bron ;
Haf a ddug y claf i'w ddor,
Haf coroniad seliad Sior ;
Haf o'n pau yn cau pob cwyn,
Haf a'i dw' yn llanw llwyn ;
  Haf yr hafau—cynhauafau
Rhwydd a hael i ni wnai ddwyn.

Haf wnae'n flin Arglwyddi'n gwlad,
Haf roes dolc i'w rhwysgfawr stad;
Haf fel gwin i werin wan,
Haf roe lwydd yn rhwydd i'w rhan;
Haf yn hir a gofir, gwn :
Haf i'r byd i fwrw'i bwn ;
  Fendigedig haf caredig !
Haf yn well ni fu na hwn.

Haf o desog, heulog hin,
Haf heb wlaw na chenllif blin ;
Haf yn wir fu'n hir ei oes,
Haf heb chwaon creulon croes ;
Haf a'i rodd a lonodd lu,
Haf o hedd a mwynder fu ;
Haf o flodau, haf o nodau
  Cariad tyner Tad o'n tu.

CLEDLYN.

——o——

YSTYRIWCH LILI Y MAES.

Tôn—"AURELIA."

Gwel fel y tyf y lili—
  Mor deg ei mantell yw !
Pwy ddichon ei dilladu
  Mor harddwych ond ein Duw !
O gol y ddae'r ei harwain,
  Wna Ef â'i ddirgel law.
Ac yna'u harddu'n gywrain
  A'i heulwen, gwlith a gwlaw.

'Nawr fel yn Galilea,
  Yn nyddiau'r Iesu cu,
Y lili'n siriol draetha
  Ei chenad wrthym ni ;
Am Dduw, a'i ofal tirion,
  Llefara drwy'r holl fyd
A geilw ar blant dynion
  I'w garu Ef o hyd.

Mor bur yw gwedd ei gwyneb
  Tra gwena'i gruddiau llon,
Awgryma i ni'r purdeb
  Ofyna Duw'n mhob bron ;
Pan fyddo'n ffydd ar fethu,
  O Arglwydd, pâr i ni
Ystyried gwers y lili,
  A dysgu ganddi hi.

E. CEREDIG JONES.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Ffrwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

BEN EVANS'

Summer Clearance

- SALE -

Saturday, July 6, 1912

AND DAILY DURING THE MONTH.

A chilly May and a dripping June (such being the conditions through the greater portion of those months) have delayed a very large amount of Summer Buying, and stocks for this Sale are Larger and Fresher than usual, a circumstance which increases its value to the shrewd seeker after keen values in all things for Personal Wear or the Equipment of the Home.

Ben Evans & Co., Ltd. Swansea.